


RHWYSTRO'R CWYR

argyfwng tynnu cwyr
clustiau'r GIG yng Nghymru

RN
I:D

Cefnogi pobl fyddar,
sydd â cholled clyw
neu dinitws



CRYNODEB

Mae gwasanaethau tynnu cwyr clustiau'n hanfodol ar gyfer iechyd, ansawdd bywyd a lles pobl; nid yw'n foethusrwydd, ond yn hytrach yn hanfod.

Heb allu manteisio ar wasanaeth tynnu cwyr y GIG yn brydlon, gallai pobl ddioddef symptomau sylweddol megis colli clyw a thinitws, iechyd meddwl gwael a diffyg modd o fanteisio ar ofal awdioleg hanfodol neu ddiagnosis.



Er gwaethaf llwybr gofal rheoli cwyr cenedlaethol yng Nghymru, dydy oddeutu hanner y boblogaeth methu â manteisio ar wasanaeth rheoli cwyr mewn sefydliadau gofal sylfaenol a gofal cymunedol, gan olygu nad ydyn nhw'n derbyn y gofal hanfodol neu eu bod nhw'n gorfod talu hyd at £100 am ddarpariaeth breifat.



O'r saith Bwrdd Iechyd yng Nghymru, mae tri yn cynnig gwasanaeth rheoli cwyr gofal cymunedol a sylfaenol, mae dau yn darparu'r gwasanaeth yn rhannol a does gan ddau ddim darpariaeth o gwbl. O ganlyniad, dydy oddeutu 48,000 o bobl sydd angen tynnu cwyr methu â manteisio ar wasanaeth o'r fath.



Mae'r diffyg cyllid wedi'i glustnodi ar gyfer cyflwyno'r llwybr gofal rheoli cwyr wedi effeithio ar weithrediad ledled sawl Bwrdd Iechyd, gyda gwasanaethau rhai byrddau iechyd ar stop neu wedi'u gohirio am gyfnod amhenodol, a byrddau gwasanaeth eraill heb unrhyw gynlluniau i gynnig gwasanaeth o'r fath.

Hyd yn oed pan fo gwasanaethau ar waith, mae yna ddiffyg gwybodaeth i gleifion a chyfarwyddyd i'r gwasanaethau sydd ar gael mewn sefydliadau gofal sylfaenol a chymunedol.



Er mwyn mynd i'r afael â hyn, rydym yn galw am y canlynol:

1.


Llywodraeth Cymru i gydweithio gyda'r holl Fyrddau Iechyd i gyflymu gweithrediad llawn a chyson y Llwybr Gofal Rheoli Cwyr Clustiau mewn sefydliadau Gofal Sylfaenol a Chymunedol ledled Cymru gyfan erbyn 2026, gyda chyllid wedi'i glustnodi ar gyfer y gwasanaeth.

2.

Byrddau iechyd i sicrhau bod staff sy'n ymdrin â chleifion yn ymwybodol o'r gwasanaethau tynnu cwyr sydd ar gael a'r meini prawf mynediad i gael eu hatgyfeirio, a sicrhau caiff hyn ei hyrwyddo a'i gyfathrebu'n effeithiol i gleifion.

3.

GIG Cymru i sicrhau caiff gwybodaeth gyson, ddiogel ac ar sail tystiolaeth am reoli cwyr clust eich hunain ei rhannu gyda chleifion ledled y saith bwrdd iechyd, ac ymrwymo i'w adolygu'n barhaus.



CYFLWYNIAD




Mae tynnu cwyr clustiau'n wasanaeth hanfodol ar gyfer ansawdd bywyd a lles pobl; nid yw'n foethusrwydd ond yn hytrach yn hanfod.

Pan fo pobl methu â manteisio ar wasanaethau tynnu cwyr y GIG yn brydlon, gallan nhw ddioddef symptomau poenus ac sy'n peri gofid megis colli clyw a thinitws, diffyg modd o fanteisio ar ofal awdioleg hanfodol neu ddiagnosis ac iechyd meddwl gwael. Gallai hefyd effeithio'n benodol ar y rheiny sy'n gwisgo teclynnau clyw, gan achosi teclynnau clyw i 'chwibanu', gan leihau eu perfformiad a'u gwneud yn anghyfforddus, a allai yn ei dro atal pobl rhag eu gwisgo. Gellir osgoi hyn i gyd drwy gynnig modd i fanteisio ar wasanaethau tynnu cwyr clustiau'r GIG.

Mae tynnu cwyr yn wasanaeth y mae nifer o bobl ei angen yn ystod eu hoes, a bydd ei angen sawl gwaith y flwyddyn ar rai. Yn flaenorol, amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru bod gan 3% o boblogaeth Cymru gwyr clust sydd angen ei dynnu pob blwyddyn, gan effeithio ar gannoedd ar filoedd o bobl ledled y wlad, a golygu 96,000 o apwyntiadau mewn sefydliadau gofal sylfaenol pob blwyddyn.¹ Mae hon yn broblem sydd angen sylw brys.

3%



o boblogaeth Cymru gwyr clust sydd angen ei dynnu pob blwyddyn, gan effeithio ar gannoedd ar filoedd o bobl ledled y wlad, a golygu 96,000 o apwyntiadau mewn sefydliadau gofal sylfaenol pob blwyddyn.


¹Llywybr Gofal Sylfaenol a Chymunedol ar gyfer Rheoli Cwyr Clustiau, Llywodraeth Cymru, Medi 2020-: <https://www.gov.wales/ear-wax-management-primary-and-community-care-pathway-html>

YR ACHOS AM WASANAETH YM MHOB CWR O GYMRU

Mae cwyr clust yn sylwedd olewog arferol sy'n helpu amddiffyn y glust allanol. I'r rhan fwyaf o bobl, mae cwyr clust yn symud o'r glust yn naturiol dros amser, fodd bynnag mae'n dueddol o gasglu i rai, yn enwedig y rheiny sy'n gwisgo teclynnau clyw ac mae angen ei dynnu'n broffesiynol.

Gallai rheoli cwyr eu hunain fod yn effeithiol i rai gydag arweiniad priodol ond gallai achosi sgil-ffeithiau, megis anesmwythder, llid ar groen corn y glust a phendro. Does yna ychwaith ddim tystiolaeth bod diferion clust yn datrys y rhan fwyaf o achosion o gwyr clust symptomatig. Bu i adolygiad Cochrane yn 2018 ynghylch y defnydd o ddiferion clust i gynorthwyo gyda chael gwared ar gwyr clust mewn oedolion ganfod mai dim ond 22% o'r rheiny sy'n defnyddio diferion clust wnaeth lwyddo i gael gwared ar y cwyr yn gyfan gwbl.

Gallai nifer sylweddol o gwyr wedi hel hefyd ohirio neu atal gofal clyw hanfodol yn yr adran awdioleg, gyda phobl yn methu â manteisio ar driniaeth nes bod y cwyr wedi'i dynnu. Felly, mae'n hollbwysig felly bod pob claf yng Nghymru sydd ag angen meddygol i gael gwared ar gwyr yn gallu manteisio ar wasanaeth GIG cyson ac o safon, yn ogystal ag arweiniad eglur ar hunan-reoli.



"Rydw i'n 72 oed ac yn dilyn gweithio mewn ffatri, mae'n rhaid imi gael chwistrellu fy nghlustiau pob blwyddyn. Doedd hynny ddim yn broblem am flynyddoedd yn y feddygfa, yna roedd y gwasanaeth ar gael mewn ysbytai ond bellach dydy'r gwasanaeth ddim ar gael yn yr un o'r llefydd hynny. Rydw i wedi gwneud ymholiadau ac mae am gostio £55 yn Specsavers. Alla i fforddio chwistrellu fy nghlustiau gyda dim ond fy mhensiwn a'r costau byw? Mae'n rhaid imi, felly mae'n rhaid i ryw beth newid."

- Gan glaf yng Ngogledd Cymru

²Cochrane Database of Systematic Reviews, Ear drops for the removal of ear wax, July 2018. URL: <https://www.cochranelibrary.com/cdsr/doi/10.1002/14651858.CD012171.pub2/full>

TYNNU CWYR YNG NGHYMURU: Y SEFYLLFA BRESENNOL

Roedd Llywodraeth Cymru ymhlith y cyntaf i gydnabod pwysigrwydd y mater hwn yn y DU. Fel ymateb i bryderon a godwyd ynghylch y diffyg cysondeb o ran darparu gwasanaethau tynnu cwyr clustiau ledled Cymru, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn 2018 i asesu'r ddarpariaeth gwasanaeth presennol a datblygu llwybr gofal integredig cenedlaethol ar gyfer rheoli cwyr clustiau'n ddiogel ac yn effeithiol.

Ar yr adeg hon, roedd byrddau iechyd lleol wedi bod yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau tynnu cwyr, ond nid oedd yn rhan benodol o'r contract Meddyg Teulu. Felly, roedd rhai cleifion yn gallu manteisio ar y gwasanaeth gan y Meddyg Teulu, gyda rhai eraill yn cael eu hatgyfeirio i adrannau Clust, Trwyn a Gwddf ysbytai. Mae'r amrywiaeth hyn o ran darpariaeth gwasanaeth, ynghyd â chynnydd mewn atgyfeiriadau cleifion a rhestrau aros yn golygu nad oedd y cleifion â'r angen mwyaf yn cael eu gweld yn y lle priodol, ar yr adeg briodol, gan y gweithwyr iechyd proffesiynol priodol.

Er gwaethaf y canllawiau eglur hyn sydd ar waith ers 2020, yn y blynyddoedd diweddar, rydym wedi parhau i glywed gan ein cymunedau nad ydyn nhw'n gallu manteisio ar y gwasanaeth am ddim gan eu byrddau iechyd lleol.

Pan fo cleifion yn mynd at eu Meddyg Teulu gyda chwyr yn eu clustiau, fe gân nhw

eu hysbysu'n aml na chaiff gwasanaethau eu darparu mewn sefydliadau gofal sylfaenol a chymunedol. Yn lle hynny, caiff y cleifion eu cyfeirio at driniaeth breifat a allai gostio hyd at £100. Pan aethom ati i holi ein cymunedau yn 2022, bu inni ganfod enghreifftiau pryderus o hyn yn digwydd, hyd yn oed mewn byrddau iechyd lleol lle mae gwasanaethau tynnu cwyr yn bodoli.

Yn 2022, fe wnaethon ni ofyn i gymunedau yng Nghymru i rannu rhywfaint o'u profiadau nhw o fanteisio ar wasanaeth tynnu cwyr mewn sefydliadau gofal sylfaenol a chymunedol. Mae eu straeon yn adlewyrchu themâu cyffredin sydd wedi'u rhannu gyda ni. Dyma rai o'r themâu hynny:

- Methu â manteisio ar wasanaeth tynnu cwyr bellach er ei fod wedi'i ddarparu'n flaenorol.
- Diferion clust i reoli'r cwyr eu hunain ddim yn gweithio'n effeithiol neu'n achosi sgil-ffeithiau.
- Cwyr yn effeithio ar y modd i fanteisio ar ofal awdioleg gan gynnwys profion clyw.
- Y gost o orfod dibynnu ar wasanaethau tynnu cwyr preifat a sut gallai hyn waethygu anghydraddoldebau iechyd.

Mae [Llwybr Gofal Sylfaenol a Chymunedol ar gyfer Rheoli Cwyr Clustiau](#) Llywodraeth Cymru yn llwybr gofal cenedlaethol ar gyfer rheoli cwyr clustiau'n ddiogel ac yn effeithiol mewn sefydliadau sylfaenol a chymunedol. Cyflwynwyd y llwybr ym mis Hydref 2020 gyda'r nod o gynnig deilliannau cyson i gleifion, a phwyslais ar gyfiawnder a grymuso pobl i reoli eu gofal eu hunain yn well, gan gydymffurfio gyda chanllawiau a safonau ansawdd Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE). Cafodd y canllawiau newydd eu cyflwyno i'r holl fyrddau iechyd er mwyn iddyn nhw eu rhoi ar waith ar unwaith.


“Dros y blynyddoedd, rydw i wedi cael chwistrellu fy nghlustiau oddeutu pedair gwaith ac mae’n ddefnyddiol dros ben. Yr Haf diwethaf fe es i at fy Meddyg Teulu ac fe wnaethon nhw ddweud ‘dydyn ni ddim yn cynnig y gwasanaeth mwyach’. Fe wnaethon nhw ddweud wrtha i am holi’r fferyllydd a wnaeth argymhell diferion bicarbonad. Fe wnes i ddefnyddio’r rhain am gryn amser a doedd dim newid. Fe wnes i ddychwelyd at y Meddyg Teulu a wnaeth roi rhywbeth wnaeth fy ngwneud i’n eithaf gwael ac achosi pendro gan beidio â chael gwared ar y cwyr o gwbl. Fe es i’n ôl at y Meddyg Teulu unwaith eto a’r unig beth wnaethan nhw ei gynnig oedd presgripsiwn ar gyfer y bendro! Bu i hyn gymryd oddeutu deufis o fynd yn ôl ac ymlaen. Rydw i’n 74 ac yn ymwybodol o golli clyw felly roeddwn i’n awyddus i dderbyn prawf clyw. Ond dydw i methu â chael prawf clyw os oes gen i gwyr yn fy nghlustiau a dydw i methu â chael gwared arno! A dydy chwistrellau ddim yn gweithio. Beth ydw i fod i’w wneud? Aros nes fy mod i’n fyddar? Rydw i mewn cyfyng-gyngor.”

- Gan glaf yng Ngogledd Cymru

“Rydw i wedi dioddef gyda chwyr yn hel yn fy nghlustiau drwy gydol fy mywyd fel oedolyn. Ers fy 20au cynnar, roedd yn rhaid imi gael chwistrellu fy nghlustiau sawl gwaith yn fy Meddygfa leol er mwyn tynnu cwyr ohonyn nhw. Yn 2020, fe wnes i ddarganfod nad ydy fy Meddyg Teulu’n cynnig y gwasanaeth bellach a dywedwyd wrtha i am dalu’n breifat am wasanaeth newydd, micro sugno. Fe wnes i dalu’n breifat am y gwasanaeth a darganfod nad oedd modd tynnu’r holl gwyr o fy nghlust chwith gan fod y cwyr yn rhy agos at dympan y glust. Rydw i wedi gorfod byw gyda hyn am y ddwy flynedd diwethaf oherwydd dydw i methu dod o hyd i unrhyw un sy’n gallu cyflawni’r gwasanaeth chwistrellu er mwyn mynd i’r afael â’r broblem.


- Enghraifft arall o Orllewin Cymru

LOTERI COD POST O RAN DARPARIAETH



I'r perwyl hwn, fe wnaethom ni gyflwyno ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth i bob un o'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru i ganfod pa wasanaethau tynnu cwyr sydd ar gael mewn sefydliadau gofal sylfaenol a chymunedol, yn unol â llwybr gofal Llywodraeth Cymru. Bu inni gyflwyno'r ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth am y tro cyntaf ym mis Awst 2023, ac yna eto ym mis Tachwedd 2024, i dderbyn y darlun cyfan o'r ddarpariaeth gwasanaeth ac unrhyw newidiadau yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r ymatebion wnaethon ni eu derbyn yn cyd-fynd â thair sefyllfa:



DARPARIAETH LAWN

o wasanaeth rheoli cwyr clustiau, yn unol â Llywybr Gofal Llywodraeth Cymru.



1. Powys
2. Swansea Bay
3. Hywel Dda

DARPARIAETH RANNOL

o wasanaeth rheoli cwyr clustiau - lle mae'r gwasanaeth ond yn bodoli yn rhan o'r bwrdd iechyd neu nid yw'n hollol unol â'r Llywybr Gofal.



4. Cwm Taf Morgannwg
5. Betsi Cadwaladr

DIM DARPARIAETH

o wasanaeth rheoli cwyr clustiau mewn sefydliadau gofal sylfaenol a chymunedol, yn unol â'r Llywybr Gofal.



6. Aneurin Bevan
7. Cardiff and Vale

Darpariaeth Lawn: Ymatebodd tri bwrdd iechyd, sef Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (SBUHB), Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (PTHB) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (HDUHB) i ddweud bod ganddyn nhw wasanaeth rheoli cwyr mewn sefydliadau gofal sylfaenol a chymunedol yn unol â Llwybr Gofal Llywodraeth Cymru. Fe wnaeth y datganiad rhyddid gwybodaeth ddatgan caiff y gwasanaeth ei gynnis ledled safleoedd clwstr gofal sylfaenol yn y Byrddau Iechyd hyn.

Darpariaeth rannol: Caiff y gwasanaeth ei gynnis yn rhannol mewn dau fwrdd iechyd:

- Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, mae'r gwasanaeth bellach ar waith yn hanner ei glystyrau gofal sylfaenol, sy'n welliant, oherwydd bu i ein datganiad Rhyddid Gwybodaeth yn 2023 ddatgelu bod y gwasanaeth ond wedi'i ddarparu 35%. Fodd bynnag, mae'r cynnod darparu wedi'i ymestyn am gyfnod amhenodol yn sgil diffyg cyllid.

- Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (CTMUHB), mae'r gwasanaeth ar waith ym mhob man oni bai am Ben-y-bont ar Ogwr oherwydd bu i'r ardal hon uno gyda Chwm Taf Morgannwg o Fwrdd Iechyd arall yn 2019. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu nad oes modd i gleifion ym Mhen-y-bont ar Ogwr fanteisio ar wasanaeth.

Dim darpariaeth: Ar hyn o bryd, does gan ddau fwrdd iechyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (ABUHB), a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (CVUHB), ddim gwasanaeth rheoli cwyr mewn sefydliadau gofal sylfaenol a chymunedol i gleifion sydd yn unol â'r Llwybr

Gofal.

- Cadarnhaodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan nad ydyw'n comisiynu unrhyw wasanaeth rheoli cwyr mewn sefydliadau gofal sylfaenol a chymunedol, ac nad yw tynnu cwyr yn benodol o fewn contract y Meddygon Teulu. Caiff cleifion sy'n ceisio triniaeth gyngor am reoli'r cwyr eu hunain, neu mewn rhai achosion, gallai meddyg clust, trwyn a gwddf dynnu'r cwyr mewn ysbyty.

- Cadarnhaodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro hefyd nad oes yna wasanaeth rheoli cwyr ar gael mewn sefydliadau gofal sylfaenol a chymunedol. Caiff cleifion sy'n ceisio triniaeth yn yr ardal hon wybodaeth am reoli'r cwyr eu hunain. Fodd bynnag i'r rheiny sy'n gwisgo teclynnau clyw, mewn rhai amgylchiadau, gallai adrannau ysbytai gynnis gwasanaeth tynnu cwyr.

Mae hyn yn adlewyrchu sefyllfa daer dros ben. Er bod y rhan fwyaf o fyrddau iechyd yng Nghymru'n cynnis gwasanaeth tynnu cwyr mewn sefydliadau gofal sylfaenol a chymunedol, does gan y tri bwrdd iechyd mwyaf sy'n gwasanaethu poblogaeth eang naill ai unrhyw wasanaeth ar waith, neu mae eu gwasanaeth ond wedi'i ddarparu'n rhannol.

Mae hyn yn golygu bod 1.6 miliwn o'r boblogaeth yng Nghymru'n byw mewn ardal lle nad oes yna wasanaeth tynnu cwyr gan y GIG, ac yn seiliedig ar yr oddeutu 3% sy'n dioddef o gwyr clustiau pob blwyddyn, mae hyn yn golygu y byddai 48,000 o bobl yng Nghymru yn ceisio triniaeth i dynnu cwyr clustiau mewn ardaloedd lle gwrthodir modd iddyn nhw fanteisio ar wasanaeth GIG.

1.6 MILIWN

o'r boblogaeth yng Nghymru'n byw mewn ardal lle nad oes yna wasanaeth tynnu cwyr gan y GIG.



48,000

o bobl yng Nghymru yn ceisio triniaeth i dynnu cwyr clustiau mewn ardaloedd lle gwrthodir modd iddyn nhw fanteisio ar wasanaeth GIG.



PAM NAD YW'R HOLL FYRDDAU IECHYD YN DARPARU GWASANAETH?

Rhwyrstr cyson rhag cydymffurfio gyda Llwybr Gofal Llywodraeth Cymru yw cyllid penodol a buddsoddiad cynaliadwy mewn byrddau iechyd i sefydlu gwasanaeth a gweithredu'r llwybr gofal yn gyfan gwbl.

Er enghraifft, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, cafodd eu gwasanaeth tynnu cwyr gofal sylfaenol a dan arweiniad yr adran awdioleg ei ohirio y tu hwnt i'r cyfnod cyflwyno tair blynedd cychwynnol yn sgil adolygiad cynllunio mewnol a wnaeth ail-briodoli cyllid mewn meysydd eraill. Fe wnaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gyfeirio at "buddsoddiad ychwanegol" yn benodol fel rhwystr rhag sefydlu gwasanaeth.

Er bod y Byrddau Iechyd hyn wedi ymrwymo i adolygiadau sydd ar y gweill ynghylch yr angen am wasanaeth, ni wnaeth Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan rannu unrhyw wybodaeth bellach ar gynlluniau i gyflwyno gwasanaeth rheoli cwyr mewn sefydliadau gofal sylfaenol a chymunedol yn y dyfodol, sy'n peri pryder.



Rhodddwyd gwasanaeth rheoli cwyr mewn sefydliadau sylfaenol a chymunedol ar brawf am chwe mis o hyd mewn un clwstwr gofal sylfaenol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn 2022 a manteisiodd 474 o gleifion arno. Er bod y gwasanaeth prawf ar raddfa fach, roedd yn llwyddiannus dros ben: o'r rheiny a wnaeth fanteisio ar y gwasanaeth, fe wnaeth 171 gwblhau holiadur boddhad cleifion, gyda chyfradd boddhad o 100%, a 98% yn dweud y byddan nhw'n argymhell y gwasanaeth i bobl eraill. Roedd yr holl adborth ysgrifenedig a dderbyniwyd yn gadarnhaol, gydag un yn galw'r gwasanaeth yn un "sy'n newid bywydau".

Er gwaethaf llwyddiant y gwasanaeth prawf, ni wnaeth lwyddo i ennill cyllid i barhau. Bu i ohebiaeth gyda'r Bwrdd Iechyd yn 2024 ddatgan "yn sgil gofynion cystadleuol o fewn y Gwasanaeth Awdioleg a diffyg o ran y gweithlu, penderfynwyd ail-gyfeirio'r cyllid".

RYDYM YN GALW AM

Mae modd i fanteisio ar wasanaeth tynnu cwyr am ddim yn hanfodol ar gyfer ansawdd bywyd a lles pobl. Mae'n wasanaeth hanfodol i ofalu am iechyd a chlyw pobl, ac mae modd i fanteisio ar wasanaeth gofal sylfaenol a chymunedol ledled Cymru'n cyd-fynd â model Gofal Sylfaenol Llywodraeth Cymru, wedi'i danategu gan egwyddorion gofal iechyd darbodus.

Mae ein hymchwil yn datgelu bod degau o filoedd o bobl ledled Cymru'n dal methu â manteisio ar wasanaeth tynnu cwyr y GIG pan fo ganddyn nhw angen meddygol. Er eu bod nhw wedi chwarae rhan flaenllaw wrth gyflwyno Llwybr Gofal Rheoli Cwyr Llywodraeth Cymru yn 2020, mae Cymru mewn perygl o fod ar ei hôl hi o gymharu â gwledydd eraill, ac mae cleifion yng Nghymru'n wynebu sefyllfa waeth o ran darpariaeth tynnu cwyr yn gyffredinol nag mewn ardaloedd eraill yn y DU.

Yn yr Alban, mae 12 o'r 14 bwrdd iechyd yn cynnig gwasanaeth tynnu cwyr llawn ledled yr holl ardal maen nhw'n eu gwasanaethu, gyda dau fwrdd iechyd yn darparu gwasanaeth rhannol

mewn rhai rhannau o'u hardal.

Hyd yn oed yn Lloegr, lle bu'r gwasanaeth bob amser ar ei hôl hi yn sgil diffyg arweiniad cenedlaethol a darpariaeth gwasanaeth anghyson, mae dros hanner y 42 Bwrdd Iechyd Integredig yn comisiynu gwasanaeth tynnu cwyr llawn, gyda gwasanaeth rhannol ar waith mewn 13 Bwrdd Iechyd Integredig pellach.

Er ein bod ni'n cefnogi'r polisi a'r canllawiau sy'n sail i'r Llwybr Gofal Cenedlaethol, mae ein hymchwil yn dangos, heb gyllid cyson ac wedi'i glustnodi, nid yw wedi trosi i gynnig mynediad cyson i wasanaethau ar gyfer pobl ledled Cymru ac mae yna ddiffygion hynod bryderus yn y ddarpariaeth o hyd. Mae oddeutu hanner poblogaeth Cymru yn byw mewn ardaloedd lle nad oes yna wasanaeth tynnu cwyr yn unol â'r Llwybr Gofal, ac rydym yn amcan bod hynny'n golygu bod oddeutu 48,000 o bobl fyddai â chwyr yn eu clustiau yn byw mewn ardal lle na allan nhw fanteisio ar driniaeth gan y GIG.

Er mwyn mynd i'r afael â'r mater brys hwn, rydym yn galw am y canlynol:



1.

Llywodraeth Cymru i gydweithio gyda'r holl Fyrddau Iechyd i gyflymu gweithrediad llawn a chyson y Llwybr Gofal Rheoli Cwyr Clustiau mewn sefydliadau Gofal Sylfaenol a Chymunedol ledled Cymru gyfan erbyn 2026, gyda chyllid wedi'i glustnodi ar gyfer y gwasanaeth.

2.

Byrddau iechyd i sicrhau bod staff sy'n ymdrin â chleifion yn ymwybodol o'r gwasanaethau tynnu cwyr sydd ar gael a'r meini prawf mynediad i gael eu hatgyfeirio, a sicrhau caiff hyn ei hyrwyddo a'i gyfathrebu'n effeithiol i gleifion.

3.

GIG Cymru i sicrhau caiff gwybodaeth gyson, ddiogel ac ar sail tystiolaeth am reoli cwyr clust eich hunain ei rhannu gyda chleifion ledled y saith bwrdd iechyd, ac ymrwmo i'w adolygu'n barhaus.



Cefnogi pobl fyddar,
sydd â cholled clyw
neu dinitws